
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1215

**Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn
Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2022**

RHAN 3

Diwygio rheoliadau domestig

Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

9.—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009⁽¹⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2)—

- (a) yn y diffiniad o “rheolau marchnata”, yn lle “, 75 a 76” rhodder “a 76 o Reoliad (EU) 2013,”;
- (b) yn y diffiniad o “safonau marchnata penodol”, hepgorer “y darperir ar eu cyfer o dan Erthygl 75(1)(b) o Reoliad (EU) 2013”.

Diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010

10.—(1) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010⁽²⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 2, hepgorer y rhesi sy’n dechrau ag “Erthyglau 75(2) a (3)”.

(1) [O.S. 2009/1551 \(Cy. 151\)](#); yr offerynnau diwygio perthnasol yw [O.S. 2011/2486 \(Cy. 270\)](#), [O.S. 2013/3270 \(Cy. 320\)](#) ac [O.S. 2019/732 \(Cy. 137\)](#).
(2) [O.S. 2010/1671 \(Cy. 158\)](#); yr offeryn diwygio perthnasol yw [O.S. 2019/463 \(Cy. 111\)](#).